# Arolwg Preswylwyr Bro Morgannwg 2023/24

Sam Sullivan
Pennaeth Ystadegau ac Ymchwil

22 Mai 2024

# Pwy yw Data Cymru?

Mae Data Cymru ym mherchnogaeth lwyr, ac yn cael ei ariannu'n llwyr, gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cynigiwn amrediad o wasanaethau data, ystadegau, ac ymchwil arbenigol, gan gynnwys:

- Cyrchu, casglu, coladu, a dadansoddi data
- Ymgymryd ag ymchwil a gwerthuso
- Cyflwyno data yn effeithiol
- Cynnal arolygon i ddarganfod barn dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau / cwsmeriaid
- Darparu hyfforddiant

Data Cymru

# Methodoleg

- Cafodd yr arolwg dwyieithog ei gyd-ddatblygu gyda chyngor Bro Morgannwg
- Rhedodd yr arolwg o 22 Awst 2023 tan 18 Rhagfyr 2023
- Defnyddiom ddull digidol-yn-gyntaf, sy’n golygu y dyluniwyd y prif ddull o ymateb i fod ar-lein
- Fodd bynnag, rhannodd cyngor Bro Morgannwg daflenni a phosteri gyda chodau QR i’r arolwg mewn mannau sy’n cael eu defnyddio gan lawer o bobl a digwyddiadau
- O’i gyfuno ag opsiynau papur pwrpasol, gall dull digidol-yn-gyntaf fod yn ffordd gost-effeithiol o gasglu data cadarn
- Cafodd dull digidol-yn-gyntaf ei ddefnyddio yng Nghyfrifiad 2021

Data Cymru

# Methodoleg

- Cynhaliodd Bro Morgannwg gynllun cymhellion i annog ymateb
- Darparom ni'r wybodaeth ddiweddaraf yn wythnosol am y cyfraddau ymateb, gan adael i Fro Morgannwg dargedu gweithgarwch ymgysylltu i ardaloedd a grwpiau â chyfraddau ymateb cymharol isel
- Arweiniodd hyn at 4,009 o ymatebion defnyddiadwy:

| Math o ymateb | Nifer o ymatebion |
|---|---:|
| Cyflawn | 3,010 |
| Rhannol | 999 |
| Cyfanswm | 4,009 |

- Mae hon yn gyfradd ymateb gyffredinol dda iawn o tua 3%*

*Yn seiliedig ar amcangyfrif poblogaeth Cyfrifiad 2021

Data Cymru

# Glanhau data

| | Cyflawn | Rhannol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Ymatebion cyn glanhau | 3,146 | 1,395 | **4,541** |
| Ymatebion a gafodd eu tynnu | 136 | 396 | **532** |
| Heb dderbyn digon o wybodaeth | 3 | 8 | **11** |
| Ymateb afreolaidd | 133 | 13 | **146** |
| Ymateb rhannol a ddisodlwyd gan ymateb cyflawn | 0 | 375 | **375** |
| Ymatebion ar ôl glanhau | **3,010** | **999** | **4,009** |

Data Cymru

# Pwyntiau i’w nodi wrth ddehongli’r canlyniadau

- Roedd y samplu’n dibynnu’n drwm ar ymgysylltu ar-lein a nid oes gan bob preswylydd fynediad i’r rhyngrwyd
- Lliniarodd Bro Morgannwg hyn drwy gynnig opsiynau amgen, papur mewn hybiau a digwyddiadau ac mae’r cyngor yn gwneud gwaith ansoddol dilynol i ymdrin â hyn
- Gan fod yr arolwg yn ddewisol, mae’n bosibl bod rhagfarn hunan-ddewis yn bresennol hefyd
- Dylai data arolwg bob amser gael ei drin fel barn yn hytrach na ffaith

Data Cymru

# Deall cadernid y canlyniadau

- Er mwyn i sampl ddarparu data sy'n ystadegol gadarn (h.y. i gynrychioli'r boblogaeth), mae angen iddo fod yn ddigon mawr mewn perthynas â maint y boblogaeth

- Mae dadansoddwyr yn defnyddio cyfrifiad, sy'n cael ei alw'n ffin cyfeiliornad, i asesu faint o gyfeilionadau samplu sy'n bresennol

- Yn y dangosfwrdd canlyniadau, lle bo'n bosibl, rydym wedi rhoi maint y sampl ac amcangyfrif o'r ffin cyfeiliornad er mwyn amlygu cadernid y data sydd tu ôl i bob cwestiwn

Data Cymru

# Ffin cyfeiliornad

- Ar lefel yr arolwg cyfan, y ffin cyfeiliornad ar gyfer yr holl ymatebwyr = 1.6%
- Yn gyffredinol bernir bod ffin cyfeiliornad islaw 5% yn dda a rhwng 5% a 10% yn dderbyniol yn gyffredinol
- I roi eglurdeb llawn, cynhyrchom ni ystadegau ffin cyfeiliornad ar lefel cwestiynau hefyd. Mae'r rhain ar gael o fewn yr adroddiad a'r dangosfwrdd canlyniadau sydd wedi cael eu rhannu â chyngor Bro Morgannwg

Data Cymru

# Crynodeb

- Cyfradd ymateb gyffredinol gymharol uchel
- Canlyniadau ffin cyfeiliornad cyffredinol cymharol cryf
- Proses gost-effeithiol
- Partneriaeth effeithiol
- Sylfaen dda ar gyfer adeiladu ar y dull samplu wrth ailadrodd yr un peth yn y dyfodol
- Sylfaen dda ar gyfer adeiladu ar y set o gwestiynau wrth ailadrodd yr un peth yn y dyfodol
- Sail y dull a gymerwyd wrth ddatblygu'r arolwg cenedlaethol o breswylwyr

Data Cymru

# Diolch ac unrhyw gwestiynau?

Cyswllt:

Sam.Sullivan@data.cymru

Hayley.Randall@data.cymru

Data Cymru